# WALES DEAF SPORTS

## Cynllun Strategol



***Tyfu Gyda'n Gilydd.***

# Cynnwys.

**Ein Gweledigaeth, Ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau**

- Ein Gweledigaeth hyd at 2030 — 3
- Ein Pwrpas — 4
- Ein Gwerthoedd — 5
- Ein Hymddygiadau — 6

Ein Hamcanion — 7

- O1: Arwain gydag Integriti — 8
- O2: Cyfleoedd Tyfu — 9
- O3: Codi'r Gêm — 11
- O4: Adrodd Ein Stori — 12
- O5: Sail i'n Siwrnai — 13
- O6: Adnoddau Ein Strategaeth — 14

**walesdeafsports.co.uk**

Chwaraeon Byddar Cymru
Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol
Byddar Pen-y-bont ar Ogwr,
Heol Llangrallo, Bracla
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 2AP

Elusen Gofrestredig # 1125562

**2023**
**Gemau Olympaidd Byddar y Gaeaf**
Quebec

**2025**
**Gemau Olympaidd Byddar yr Haf**
Tokyo


**2027**
**Gemau Olympaidd Byddar y Gaeaf**
Seoul

**2029**
**Gemau Olympaidd Byddar yr Haf**
I'w gadarnhau

# *Ein Gweledigaeth hyd at 2030.*

## "Cenedl gynhwysol lle mae pobl fyddar yn actif, ac yn byw bywydau iachach, hapusach, mwy hyderus a chysylltiedig."

Defnyddir y term 'byddar' i gynrychioli pawb sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu sydd â cholled clyw.



# Ein Pwrpas.

## Sut byddwn yn cyflawni'r Weledigaeth:

Drwy **YMGYSYLLTU** â mwy o bobl fyddar a rhwydweithiau i drafod a hybu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy eiriolaeth, hybu a chyfathrebu effeithiol.

Drwy **ALLUOGI** ac uwchsgilio ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd cynhwysol i bobl fyddar gymryd rhan yn eu rhaglenni, eu gweithgareddau a'u llwybrau chwaraeon drwy ddysgu gyda'i gilydd a chefnogi ei gilydd e.e. hyfforddiant a bod yn fwy hyderus i ymgysylltu â phobl fyddar.

Drwy **GYSYLLTU** pobl fyddar â'n partneriaid darparu, gan ei gwneud yn haws i bawb gael mynediad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Drwy **ARWAIN** newid ac ymdrechu am welliant parhaus ym mhopeth rydym yn ei wneud.

**Drwy gyflawni'r rhain byddwn yn GWELLA iechyd, lles, hyder, cysylltedd cymdeithasol a chyfleoedd bywyd pobl fyddar.**

# Ein Gwerthoedd.

## 1

### Yn Cael Ein Sbarduno Gan Gynhwysiant

Sicrhau bod ein partneriaid yn rhoi cyfle cyfartal i bobl fyddar.

## 2

### Rydym Yn Gydnerth

Nid ydym byth yn rhoi'r gorau i'n gweledigaeth o Gymru fwy cyfartal o ran chwaraeon.

## 3

### Hwyl

Rydym yn deulu sy'n llawn cymhelliant, yn egnïol ac yn cefnogi ein gilydd drwy amseroedd da ac anodd.

## 4

### Rydym Yn Cofleidio Arloesi

Rydym yn meddwl yn arloesol, yn canolbwyntio ar atebion, a bob amser yn ymdrechu i wella.

## 5

### Rydym Yn Flaengar

Rydym eisiau arwain o'r blaen, gydag integriti mewn ffordd agored a chydweithredol.

# Ein Hymddygiadau.

Parchu **dewis unigolyn** i gymryd rhan lle mae'n dymuno a gyda phwy mae'n dewis.

Bod **yn feiddgar, yn anturus ac yn arloesol** ac yn barod i wneud pethau'n wahanol pan fydd hynny'n arwain at ganlyniad gwell i berson byddar.

Drwy fod yn **gefnogol ac yn llawn dealltwriaeth**, a thrwy gydnabod nad yw ymarfer cynhwysiant bob amser yn hawdd a'i fod weithiau'n cymryd amser.

Bod yn **agored a chofleidio cydweithredu**, drwy weithio a dysgu gyda'n gilydd, drwy rannu ein llwyddiant a thrwy gefnogi a galluogi sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar gyflawni.



# Ein Prif Amcanion:

01

**ARWAIN** gydag integriti, gan sicrhau bod systemau llywodraethu a gweinyddu trwyadl yn cael eu defnyddio yn ein gwaith bob dydd.

02

Drwy Bartneriaethau, **CYNYDDU'R** cyfleoedd i bobl fyddar gymryd rhan weithredol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol mewn lleoliad o'u dewis a gyda phwy bynnag maent yn dymuno.

03

Cefnogi athletwyr byddar i **BERFFORMIO** mewn cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, drwy weithio gyda Chwaraeon Byddar y DU ac asiantaethau a chyrff rheoli chwaraeon yng Nghymru i ddatblygu systemau sy'n eu galluogi i gyflawni eu gorau personol.

04

**HYBU**, **EIRIOL** a **DATHLU** grym chwaraeon a llwyddiant i bobl fyddar ledled Cymru a thu hwnt.

05

Casglu a rhannu'r **WYBODAETH** i helpu i roi gwybod i'n partneriaid sut i ymgysylltu'n well a darparu cyfleoedd i bobl fyddar ledled Cymru.

06

**CREU ADNODD** i gyflawni amcanion y strategaeth a gwella bywydau pobl fyddar ledled Cymru.

# **ARWAIN** gydag integriti

## **ARWAIN** newid a cheisio am welliant parhaus drwy wneud y canlynol:

- Adolygu'r ffordd y caiff Chwaraeon Byddar Cymru ei lywodraethu, gan gysoni ei arfer â disgwyliadau'r fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.
- Esblygu Chwaraeon Byddar Cymru yn fwrdd cynghori strategol cenedlaethol sy'n seiliedig ar sgiliau ac yn perfformio'n dda.
- Penodi Ymddiriedolwyr a Chynghorwyr Arbennig i fwrdd Chwaraeon Byddar Cymru o blith rhanddeiliaid allweddol i gefnogi cyfeiriad strategol, pwrpas a chysylltedd y sefydliad.
- Darparu adnoddau a phenodi rôl Arweinydd Gweithredol i sbarduno gweithredu cynllun strategol a busnes Chwaraeon Byddar Cymru.
- Sefydlu is-grwpiau a all helpu i gyflawni'r strategaeth e.e. Cymuned / Perfformiad / Eiriolaeth a Chyfathrebu / Busnes, Diogelu, Lles a Risg.
- Ymgysylltu â strwythurau llywodraethu a gweithredol Chwaraeon Byddar y DU gan gynnwys aelodaeth o Chwaraeon Byddar y DU a chadw at y grŵp 4Nations arfaethedig a grwpiau Cyfranogiad a Pherfformiad Chwaraeon Byddar y DU.
- Cefnogi cynhwysiant cadarnhaol a helpu i drosglwyddo ein sefydliadau chwaraeon byddar-benodol i fod yn aelodau o Gyrff Rheoli Cenedlaethol prif ffrwd.
- Cytuno ar a monitro targedau rhaglen sy'n cyd-fynd â chyflawni'r strategaeth 4 blynedd gyntaf.
- Nodi a datblygu adnoddau digonol i gyflawni'r strategaeth.
- Gweithio tuag at gyflawni Fframwaith Gallu llywodraethu Chwaraeon Cymru.
- Cyfrannu at lunio polisi cyhoeddus ar gyfer pobl fyddar yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn helpu i gyflawni ein Gweledigaeth.

***BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:***

> ***"Sefydliad cenedlaethol uchel ei barch y mae pobl yn ymddiried ynddo i arwain o'r blaen."***

# 02

# **CYNYDDU** cyfleoedd

## **GALLUOGI** ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd cynhwysol i bobl fyddar gymryd rhan drwy wneud y canlynol:

- Gweithio ar y Cyd â Chwaraeon Byddar y DU i:
  - cyflwyno cyrsiau hyfforddi i uwchsgilio partneriaid
  - adnabod a hyfforddi tiwtoriaid yng Nghymru
  - hybu adnoddau iaith arwyddion sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer chwaraeon
  - cefnogi mentrau ar y cyd ar draws y 4 gwlad i gefnogi anghenion y gymuned fyddar
  - cefnogi hyfforddiant gweithlu Cymru gan gynnwys hyfforddwyr, arweinwyr chwaraeon, swyddogion a defnyddwyr IAP gwirfoddol cymunedol
- Creu porth ar-lein tair-ieithog (IAP, Saesneg a Chymraeg) a fydd yn cynorthwyo hyfforddwyr, arweinwyr chwaraeon, swyddogion a gwirfoddolwyr gyda'u darpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ddydd i ddydd i bobl fyddar.
- Recriwtio cronfa o ddefnyddwyr IAP gwirfoddol cymunedol hyfforddedig a all gefnogi pobl fyddar i gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch lleol.
- Creu adnoddau 'insport' i gefnogi cynhwysiant chwaraeon byddar ymhlith yr holl bartneriaid mewn Awdurdodau Lleol, clybiau, asiantaethau cenedlaethol, cyrff rheoli chwaraeon a phartneriaid darparu trydydd sector.
- Gweithio gydag Atebion Clwb Chwaraeon Cymru a SPORTED i greu 'Pecynnau Adnoddau Clwb' cynhwysol i chwaraeon byddar.
- Darparu hyfforddiant i Swyddogion Datblygu Cyrff Rheoli Cenedlaethol Cymru, Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, Ymddiriedolaethau Hamdden, Awdurdodau Lleol a darparwyr hamdden yn y sector preifat ar arfer cynhwysol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.
- Galluogi cyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol Cymru i allu cefnogi eu clybiau cymunedol i fod yn fwy cynhwysol wrth gyflwyno chwaraeon cymunedol i bobl fyddar.

## **YMGYSYLLTU** â phobl fyddar a'u rhwydweithiau i hybu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy wneud y canlynol:

- Cydgysylltu â grwpiau cenedlaethol yng Nghymru, grwpiau byddar rhanbarthol, clybiau byddar ac addysg i hybu iechyd a lles, cyfeirio pobl fyddar at weithgarwch cymunedol.
- Creu cysylltiadau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a Lleol, Unedau Awdioleg, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Parhad >

02

> ***Cynyddu Cyfleoedd*** Parhad

## **CYSYLLTU** ag:

- Ysgolion, Unedau Addysg Byddar a Cholegau AB i wella mynediad i raglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol ac i gefnogi eu dysgu am arfer cynhwysol.
- Street Games, yr Urdd, Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored, Arweinwyr Chwaraeon a Llysgenhadon Ifanc a phartneriaid Cenedlaethol eraill i gefnogi eu dysgu am arfer cynhwysol
- Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol i ddarparu rhaglenni cynhwysol sy'n diwallu anghenion pobl fyddar.
- Aelodau penodol Chwaraeon Byddar Cymru, Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, Chwaraeon Anabledd Cymru i nodi cyfleoedd i gynnal digwyddiadau chwaraeon byddar cymunedol a rhanbarthol yng Nghymru
- Chwaraeon Byddar y DU, tîm Chwaraeon Anabledd Cymru a sefydliadau chwaraeon-benodol i bobl fyddar yng Nghymru i sicrhau bod eu rhaglenni'n gysylltiedig ac yn gallu cefnogi'r broses o gyflwyno gweithgarwch a rhaglenni sy'n addas ar gyfer pobl fyddar.

### *BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:*

***“Cenedl gynhwysol actif lle mae pobl fyddar yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.”***

***“Mae iechyd a lles pobl fyddar yn cael eu gwella.”***

# CODI'R Gêm

## YMGYSYLLTU â phobl fyddar a'u rhwydweithiau i hybu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy wneud y canlynol:

- Hybu ymwybyddiaeth o lwybrau talent a rhaglenni recriwtio a mynediad iddynt.

## GALLUOGI ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd cynhwysol i bobl fyddar gymryd rhan drwy wneud y canlynol:

- Sefydlu is-grŵp Perfformiad yng Nghymru.
- Cydgysylltu â Chwaraeon Anabledd Cymru i gefnogi Rhaglen ei Hwb Llwybr Perfformiad.
- Gweithio gyda UKDS i gyfeirio talent at ei raglenni perfformiad a'r Gemau Olympaidd Byddar.
- Cefnogi Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol Cymru i gynnwys athletwyr byddar dawnus a thimau o fewn eu llwybrau perfformiad.
- Dylanwadu a blaenoriaethu gwaith Cyrff Rheoli Cenedlaethol Cymru a all gyfrannu at lwyddiant athletwyr a thimau byddar Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol yn y dyfodol, gan gynnwys y Gemau Olympaidd Byddar yn 2025, 2027 a 2029.
- Sefydlu rhaglen ymwybyddiaeth o fyddardod i uwchsgilio a chynyddu nifer yr hyfforddwyr rhanbarthol a chenedlaethol o Gymru sy'n gweithio gydag athletwyr a thimau byddar.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon byddar rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yng Nghymru.

## CYSYLLTU â:

- a chefnogi grŵp Perfformiad UKDS i gryfhau llwybr y DU, y safonau ar gyfer cystadlu a dewis athletwyr i ddigwyddiadau rhyngwladol yn y dyfodol. **https://www.walesdeafsports.co.uk/events-calendar**
- Partneriaid cyflawni perthnasol i roi gwell cyfleoedd i athletwyr byddar Cymru gystadlu am UKDS mewn Gemau Olympaidd Byddar yn y dyfodol a digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr.

***BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:***

***"Cynnydd yn nifer yr athletwyr byddar o Gymru sy'n cael eu dewis a llwyddiant parhaus mewn digwyddiadau Prydeinig a Rhyngwladol."***

# **ADRODD** ein stori

04

## **YMGYSYLLTU** â phobl fyddar a'u rhwydweithiau i hybu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy wneud y canlynol:

- Datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer hybu ac eiriol chwaraeon byddar yng Nghymru.
- Codi proffil chwaraeon byddar yng Nghymru drwy bresenoldeb gwell ar y cyfryngau.
- Arddangos digwyddiadau chwaraeon byddar mawr (Gemau Olympaidd Byddar, ac ati) i hybu cyfleoedd chwaraeon byddar.
- Gweithio gyda sefydliadau byddar lleol a chenedlaethol yng Nghymru i gyfeirio rhaglenni a llwybrau chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.
- Cysylltu â chlybiau byddar yng Nghymru i hybu ymwybyddiaeth o raglenni chwaraeon byddar.
- Rhoi llais cadarn i'r sector chwaraeon ar ran pobl fyddar yng Nghymru.
- Nodi modelau rôl o Gymru sy'n gallu 'adrodd eu stori' a chodi ymwybyddiaeth o'r effaith gadarnhaol y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol ei chael.

### *BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:*

***"Llais didwyll y mae posib ymddiried ynddo ar gyfer chwaraeon byddar yng Nghymru."***

***"Codi proffil pwysigrwydd a gwerth chwaraeon a gweithgarwch corfforol gan arwain at fwy o bobl fyddar yng Nghymru yn actif."***

***"Creu modelau rôl chwaraeon o Gymru sy'n ysbrydoli'r genedl."***

# Sail i'n **SIWRNAI**

## **YMGYSYLLTU** â phobl fyddar a'u rhwydweithiau i hybu manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy wneud y canlynol:

- Deall eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol.
- Sefydlu rhwydwaith o fforymau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr sydd, drwy ddylanwad, sgiliau a phrofiad, yn helpu i gefnogi, dylunio, darparu a monitro gwasanaethau a phrosiectau.
  Bydd y rhain yn cynnwys:
  - Llais cadarn sy'n cynrychioli buddiannau pobl fyddar, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cefnogi
  - Fforwm pobl ifanc byddar
  - Fforwm chwaraeon

## **GALLUOGI** ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd cynhwysol i bobl fyddar gymryd rhan drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio dysgu a data (e.e. data Arolwg Chwaraeon Ysgol, Arolwg Cenedlaethol Cymru, ChAC a CRhC, data partneriaethau chwaraeon a chyfleusterau hamdden, arfer da Llywodraethu ac arweinyddiaeth ac ati) i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r galw am weithgareddau lleol ledled Cymru i helpu fel sail i gynllunio a darparu yn y dyfodol.
- Dysgu oddi wrth sefydliadau byddar lleol a chenedlaethol i ddeall yn well y tueddiadau cenedlaethol ac anghenion pobl fyddar.
- Gweithio gydag is-grŵp Perfformiad UKDS i helpu fel sail i lwybrau a rhaglenni athletwyr yn y dyfodol.
- Gweithio gydag UKDS i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth o dirlun chwaraeon Cymru fel sail i lwybrau perfformiad a chynllunio ar gyfer y Gemau Olympaidd Byddar yn y dyfodol.

## **CYSYLLTU** â:

- Fforymau a grwpiau presennol sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr e.e. Consortiwm Byddar.

***BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:***

> ***"Mae'r defnydd o ddysgu, gwybodaeth a data yn arwain at well darpariaeth o'n Rhaglenni Twf, Perfformiad a Llywodraethu."***

06

# **ADNODDAU** ar gyfer ein strategaeth

- Cynhyrchu cynllun wedi'i gostio ar gyfer cyflawni strategaeth Chwaraeon Byddar Cymru, a fydd yn sail i gais i asiantaethau am gyllid.
- Datblygu achos busnes i gefnogi ceisiadau i asiantaethau cyllido i gyllido penodiad rôl Arweinydd Strategol llawn amser i sbarduno gweithredu strategaeth Chwaraeon Byddar Cymru drwy ei chyfnod cyntaf o 4 blynedd.
- Datblygu cynllun busnes i gefnogi ehangu cyrsiau addysg a hyfforddiant.
- Paratoi'r sefydliad i fod yn barod i archwilio incwm masnachol drwy ddulliau nawdd a dulliau elusennol eraill.

### *BYDD Y LLWYDDIANT FEL A GANLYN:*

> ***"Cynhyrchu adnoddau digonol i gyflawni uchelgais ein strategaeth."***

WALES DEAF SPORTS

CEFNOGIR GAN

sinsir SPORTS CONSULTING

nurture consulting

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORT WALES